



cysylltu | connect

Disgrifiad Rôl Cysylltwr Myfyrwyr

Sefydliad / adran	Gwasanaethau Lles a Discovery
Teitl y Rôl	Cysylltydd
Yn adrodd i	Gydlynnydd y Prosiect Cyswllt
Diwrnodau ac amseroedd gofynnol	Yn hyblyg, yn ôl yr angen Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau'n cael eu cynnal ar adeg o'ch dewis chi ac nid ydym yn disgwyl i waith gwirfoddol gael ei wneud ar yr un amser bob wythnos. Mae rhaglen hyfforddiant gwirfoddoli gorfodol diwrnod a hanner o hyd y mae'n rhaid i wirfoddolwyr ei chwblhau i wneud y rôl hon.
Ymrwymiad Amser	Lleiafswm o 2 dymor
Manyleb Person	<ol style="list-style-type: none">1. Bod yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atoch a dod ymlaen yn dda gyda myfyrwyr2. Bod yn dda wrth nodi myfyrwyr a allai fod yn ynysig neu'n unig a chynnig cymorth iddynt3. Bod yn hapus i fynd at fyfyrwyr a chychwyn sgwrs am eu lles4. Meddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o les (rhoddir hyfforddiant llawn)5. Bod yn fodlon hyrwyddo gweithdai, digwyddiadau, gweithgareddau, cymdeithasau, gwirfoddoli a chyfleoedd eraill ar draws y Brifysgol ac yn y gymuned6. Parodrydd i gofnodi gwybodaeth sylfaenol am y tasgau a wnaed7. Cydnabyddiaeth o ffiniau personol, ffiniau'r prosiect a phryd i ofyn am gymorth ychwanegol8. Lefel uchel o gymhelliad a'r gallu i weithio'n annibynnol
Diben y Rôl	<ul style="list-style-type: none">• Lleihau unigrwydd cymdeithasol, hunan-barch isel, iechyd meddwl gwael a nifer y myfyrwyr sy'n gadael y Brifysgol• Hyrwyddo ymddygiad a dewisiadau cadarnhaol sy'n cefnogi iechyd meddwl da ymhlith myfyrwyr• Cefnogi myfyrwyr wrth gael mynediad at y Brifysgol, gwasanaethau cefnogi cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol

Mae'r prif dasgau'n cynnwys

1. Mynd gyda myfyrwyr i gymdeithasau a digwyddiadau*
2. Defnyddio eich rhwydweithiau a'ch cyfryngau cymdeithasol chi i rannu negeseuon, ymgyrchoedd a gwybodaeth gadarnhaol am ddigwyddiadau ar y campws.
3. Cysylltu â myfyrwyr sydd mewn perygl o fod yn ynysig neu'n unig a'u gwahodd i fynd i ddigwyddiadau* neu gael cymorth
4. Annog grwpiau anffurfiol megis pobl sy'n byw yn yr un fflat neu sy'n mynychu'r un cwrs i fynd i ddigwyddiadau* a chefnogi ei gilydd.
5. Ymgymryd â thasgau bach megis dweud rhywbeth caredig i fyfyrwr arall a gofyn sut mae e/hi.
6. Cyfeirio myfyrwyr at weithgareddau neu wasanaethau cymorth eraill yn ôl yr angen
7. Ymgysylltu â Chysylltwyr staff a gweithio gyda nhw yn ôl yr angen
8. Defnyddio'r wefan Cyswllt i gysylltu â myfyrwyr, rhannu gwybodaeth ac anoddau a chefnogi gwirfoddolwyr eraill
9. Mynychu sesiynau goruchwyllo grŵp rheolaidd i adfyfrio ar y rôl
10. Cyflwyno adroddiadau gweithgareddau rheolaidd drwy wefan Cyswllt
11. Cael gwybod am gymorth lles ychwanegol y byddai myfyrwyr yn ei groesawu

*Bydd digwyddiadau'n cynnwys sesiynau Hyrwyddwyr Lles, clybiau a chymdeithasau, gwirfoddoli a sesiynau lleihau straen.